OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 No. 2830

# Gorchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2011

## RHAN 2

Cofnodion

**Hysbysu am ddaliadau**

**4.**—(1) Rhaid i feddiannwr daliad sy'n dechrau cadw moch ar y daliad hwnnw ac unrhyw berson sy'n cymryd meddiannaeth o ddaliad lle cedwir moch hysbysu Gweinidogion Cymru o'r wybodaeth ganlynol o fewn un mis—

(a) eu henw a'u cyfeiriad; a

(b) cyfeiriad y daliad.

(2) Pan ddaw hysbysiad o dan baragraff (1) i law Gweinidogion Cymru, rhaid iddynt ddyroddi marc cenfaint.

(3) Rhaid i'r meddiannydd hysbysu Gweinidogion Cymru o unrhyw newid yn yr wybodaeth ym mharagraff (1) o fewn un mis.

(4) Rhaid i'r meddiannydd hysbysu Gweinidogion Cymru o fewn un mis os yw'r meddiannydd hwnnw'n peidio â chadw moch ar unrhyw ddaliad yr hysbyswyd yn ei gylch o dan baragraff (1).